

Rhif: WG29792



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod streic

Mawrth 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Methodoleg.....	2
3. Y Prif Negeseuon	3
4. Yr Ymateb i'r Cwestiynau	4
Cwestiwn 1.....	4
Cwestiwn 2.....	5
Cwestiwn 3.....	6
Cwestiwn 4.....	7
Cwestiwn 5.....	8
Cwestiwn 6.....	9
Cwestiwn 7.....	9
5. Y Camau Nesaf	10
Atodiad 1: Rhestr o Ymatebwyr	11

Defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod streic

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod streic ar 13 Medi 2016. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn pobl am yr egwyddor o beidio â chaniatáu'r defnydd o staff asiantaethau dros dro i weithio yn lle cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus Cymru oedd yn gweithredu'n ddiwydiannol yn swyddogol.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn un o nodweddion dull Llywodraeth Cymru o reoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Partneriaeth gyhoeddus yw'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyrrff cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 7 Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag darparu gweithwyr asiantaeth i wneud y canlynol:

Dyletswyddau a gyflawnir fel arfer gan gyflogai sefydliad sy'n cymryd rhan mewn streic neu weithredu diwydiannol arall, neu i wneud gwaith cyflogai sy'n cyflawni dyletswyddau yn lle cyflogai sy'n cymryd rhan mewn streic neu weithredu diwydiannol arall.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar y cynnig i ddiddymu Rheoliad 7. Byddai hyn yn caniatáu i gyflogwyr sy'n wynebu gweithredu diwydiannol gyflogi gweithwyr asiantaeth dros dro o fusnesau cyflogaeth a fyddai wedyn yn gallu cyflawni rhai o'r dyletswyddau nad ydynt yn cael eu cyflawni oherwydd y gweithredu diwydiannol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai defnyddio gweithwyr o asiantaethau, yn y dull hwn, yn tanseilio'r hawl i streicio drwy leihau effaith gweithredu diwydiannol, ac yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng cyflogwyr ac undebau llafur sy'n sylfaenol i'n dull o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Gallwch weld y ddogfen ymgynghori yma:

<https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/defnyddio-gweithwyr-asiantaeth-pan-mae-gwasanaethau-cyhoeddus-cymru-yn-gweithredun>

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 6 Rhagfyr 2016. Cawsom 42 o ymatebion ysgrifenedig. Mae'r rhestr o ymatebwyr i'w chael yn atodiad A, gyda'r hawl i aros yn ddienw'n cael ei warchod lle gofynnwyd hynny. Gallwch gael copïau o'r ymatebion ar gais.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno barn yr ymatebwyr am y cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth, o unigolion i gyflogwyr, a TUC Cymru sy'n cynrychioli dros 400,000 o weithwyr.

Mae'r dadansoddiad ansoddol a amlinellir yma'n cyfrif pob ymateb fel endid unigol. O'r herwydd caiff ymateb oddi wrth unigolyn ei drin yn yr un modd ag ymateb gan gorff o'r sector cyhoeddus sy'n cyflogi miloedd o weithwyr neu TUC Cymru sy'n cynrychioli oddeutu 400,000 o aelodau. Am y rheswm hwnnw ni ddylid barnu bod y ffigurau'n cynrychioli'r pwysoliad sydd ynghlwm wrth yr ymatebion.

2. Methodoleg

Gofynnai'r ymgynghoriad i'r rhai oedd yn cymryd rhan beth oedd eu barn ynglŷn â phum cwestiwn. Roedd y cwestiynau'n gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno gyda datganiad penodol ai peidio ac yn rhoi cyfle iddyn nhw gynnig sylwadau i egluro'r ateb Ydw/Nac ydw a roddwyd. Roedd chweched cwestiwn yn gwahodd sylwadau am fater penodol a'r seithfed yn rhoi cyfle i'r ymatebwr nodi unrhyw faterion perthnasol nad oedd y cwestiynau'n mynd i'r afael â nhw'n benodol.

Daeth pob ymateb yn ôl naill ai drwy'r ffurflen ymateb ar-lein neu'r ffurflen ymateb y gellid ei lawrlwytho ac yna ei e-bostio at Lywodraeth Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 42 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae 11 o'r ymatebwyr wedi gofyn i'w hymatebion aros yn ddiennw a chafodd dau eu cyflwyno'n ddiennw.

Roedd un o'r ymatebion a gyflwynwyd yn ddiennw wedi nodi fod yr ymatebwr yn gweithio i fusnes cyflogaeth a oedd yn cyflenwi gweithwyr cymdeithasol locwm. Ond, gan nad oedd yr ymateb wedi ei roi ar ran y busnes, mae wedi ei gategoreiddio fel ymateb gan unigolyn.

Mae'r tabl canlynol yn dosbarthu nifer yr ymatebwyr i fathau gwahanol yn seiliedig ar gategori.

Categori	Nifer
Unigolion (heb nodi sefydliad neu wedi ymateb yn ddiennw)	20
Undebau Llafur	13
Cyflogwyr Sector Cyhoeddus	7
Cyflogwr Sector Preifat	1
Ymatebwr arall	1

Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol atebion i'r cwestiynau Ydw/Nac ydw ond ni wnaethant roi sylwadau o sylwedd, felly mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddi ansoddol yn adran 4 yn seiliedig ar sylwadau gan ymatebwyr oedd yn enwi eu sefydliad.

Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Ni wnaeth pob ymatebwr roi tic mewn blwch mewn ymateb i bob cwestiwn Ydw/Nac ydw: lle bo hyn yn wir, ni fydd y canrannau yn adran 4 yn adio i wneud 100%.
- Mae'r un ymatebwr a roddwyd yn y categori 'Arall' yn y tabl uchod yn rhoi sylwadau ynglŷn â'r cwestiynau ond ni wnaeth roi tic mewn unrhyw flwch Ydw/Nac ydw.

3. Y Prif Negeseuon

Roedd sylwadau gan nifer o ymatebwyr – ac mewn ymateb i nifer o gwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori – yn dangos pa mor bwysig yw'r dull o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a pha mor effeithiol ydyw o ran cyrraedd consensws ac osgoi streiciau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79%) yn cytuno gyda chynnig Llywodraeth Cymru y dylai'r gyfraith bresennol barhau mewn grym, sy'n golygu na all cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru ddefnyddio gweithwyr a gyflogir gan fusnes cyflogaeth i weithio yn lle staff sy'n gweithredu'n ddiwydiannol neu sy'n gweithio yn eu lle nhw.

Yn yr un modd, cytunai'r rhan fwyaf o'r rhai a atebodd (79%) fod y trefniadau gwirfoddol presennol yn ddigonol i sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf yn dal i gael eu gwarchod gan wasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol ac na fyddai'r cynnig yn effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol busnesau ac asiantaethau cyflogaeth (86%).

Fodd bynnag, nid oedd y gefnogaeth i'r ddau opsiwn a awgrymwyd ar gyfer cyflawni'r cynnig i gadw'r gyfraith bresennol mewn grym mor gryf – 60% oedd yn cytuno gyda chreu deddfwriaeth sylfaenol a 43% gyda chanllawiau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion.

O safbwynt deddfwriaeth sylfaenol roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng barn yr undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus – 77% o ymatebion yr undebau llafur yn cytuno ond dim ond 29% o ymatebion cyflogwyr y sector cyhoeddus.

Roedd mwy o gysondeb rhwng ymatebion gan undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus ynglŷn â'r opsiwn i ddefnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion, gyda dim ond 31% o ymatebion yr undebau llafur a 29% o ymatebion y cyflogwyr sector cyhoeddus yn cytuno gyda'r opsiwn.

4. Yr Ymateb i'r Cwestiynau

Cwestiwn 1

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r gyfraith bresennol barhau mewn grym, sy'n pennu na chaiff cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio gweithwyr a gyflogir gan fusnes cyflogaeth i weithio yn lle staff sy'n gweithredu'n ddiwydiannol neu staff sy'n gweithio yn eu lle nhw. Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	79%
Anghytuno	19%

	Unigolion	Undebau Llafur	Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
Cytuno	65%	100%	86%
Anghytuno	35%		14%

Roedd y mwyafrif a ymatebodd yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i gadw'r gyfraith bresennol mewn grym yng nghyswllt defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol.

Mae ymdopi'n llwyddiannus gyda gweithredu diwydiannol yn parhau i fod yn her i nifer o gyflogwyr a rheolwyr, ond gan eu bod yn derbyn eu bod yn gweithio o fewn y sefyllfa gyfreithiol bresennol roedd yr ymatebwyr yn cymryd yn ganiataol y gallent barhau i wneud hynny.

Roedd pob ymateb gan yr Undebau Llafur yn cefnogi'r sefyllfa bresennol, ac felly hefyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Roedd 65% o'r ymatebion gan unigolion yn cefnogi'r sefyllfa bresennol a'r 35% arall yn anghytuno.

Awgrymodd un cyflogwr sector cyhoeddus a ymatebodd y byddai defnyddio staff asiantaethau yn tanseilio hawliau gweithwyr cyhoeddus i ddefnyddio gweithredu diwydiannol fel arf gyfreithiol ac y gallai hynny arwain at wrthdaro y mae modd ei osgoi. Awgrymai un ymateb gan undeb llafur bod perygl y gallai newid y sefyllfa bresennol yn niweidio'r berthynas adeiladol sydd wedi ei meithrin wrth weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd un ymateb gan sefydliad sy'n cynrychioli rhan o'r sector cyhoeddus yn ystyried y dylai sefydliadau gael yr hawl i wneud penderfyniadau busnes er mwyn osgoi unrhyw effaith negyddol ar eu cleientiaid.

Roedd ymatebion gan unigolion yn fwy tebygol o anghytuno gyda'r cynnig. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys y farn y dylai fod gan ddarparwyr gwasanaethau '*ddyletswydd i sicrhau parhad yn y gwasanaethau i'r cyhoedd*' a'r opsiwn i ddefnyddio unrhyw ddull priodol er mwyn gwneud hynny. Cytunai un ymatebydd unigol gyda'r cynnig ond tynnodd sylw at effaith streiciau addysg ar rieni sy'n gweithio.

Cwestiwn 2

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y trefniadau gwirfoddol presennol yn ddigonol i sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf yn cael eu diogelu gan y gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol. Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	79%
Anghytuno	14%

	Unigolion	Undebau Llafur	Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
Cytuno	65%	100%	86%
Anghytuno	30%		

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y trefniadau gwirfoddol presennol yn ddigonol i sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf yn parhau i gael eu diogelu gan y gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol.

Roedd pob ymateb gan Undebau Llafur yn cefnogi'r sefyllfa bresennol, fel roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Roedd 65% o'r ymatebion gan unigolion yn cefnogi'r sefyllfa bresennol gyda'r 35% arall yn anghytuno.

Roedd cefnogaeth gref i'r ffordd mae'r cytundebau gwirfoddol presennol yn gweithio. Awgrymai un ymateb gan undeb llafur y gallai ei gwneud yn orfodol i wneud trefniadau ar gyfer y gwasanaethau pwysicaf niweidio'r berthynas ddiwydiannol drwy greu anghydbwysedd grym yn y gweithle.

Nododd ymatebion gan y Gwasanaethau Tân ac Achub bod eu trefniadau presennol nhw'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Tân 2014 a'u bod yn ystyried eu bod nhw'n "addas a digonol".

Awgrymodd un sefydliad oedd yn cynrychioli rhannau o'r sector cyhoeddus fod yna adegau pan nad oes modd gweithredu'r trefniadau gwirfoddol bob amser i warchod darpariaeth y gwasanaeth ond ni roddodd enghraifft benodol. Ar y llaw arall, roedd un ymateb gan undeb llafur yn awgrymu y gallai defnyddio gweithwyr o asiantaethau sy'n ddibrofiad a heb eu hyfforddi'n ddigonol beri risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Cwestiwn 3

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r cynnig yn effeithio'n fawr ar sefyllfa ariannol asiantaethau a busnesau cyflogaeth. Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	86%
Anghytuno	7%

	Unigolion	Undebau Llafur	Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
Cytuno	85%	92%	86%
Anghytuno	10%		14%

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fyddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol busnesau ac asiantaethau cyflogaeth. Roedd mwyafrif yr ymatebion oedd yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru yn gyffredin i'r undebau llafur, y sector cyhoeddus ac unigolion.

Cytunai nifer o ymatebwyr o bob categori na fyddai unrhyw effaith niweidiol gan fod cadw'r trefniadau cyfredol yn golygu nad yw cyflogwyr ar hyn o bryd yn gallu cyflogi gweithwyr o asiantaethau ac felly does dim mantais ariannol i asiantaethau cyflogaeth ar hyn o bryd. Awgrymwyd y byddai cynnig gweithwyr o'r fath yn fusnes oedd heb ei gynllunio a ddim yn rhan o waith craidd asiantaethau busnes, ac felly y byddai o fantais i'w sefyllfa ariannol. Nodwyd hefyd y gallai hyn gael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol y sefydliad sector cyhoeddus sy'n cyflogi gweithwyr o asiantaethau.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at eu pryderon ynglŷn â pha mor debygol yw hi y byddai gweithwyr o asiantaethau yn meddu ar y sgiliau penodol i wneud swyddi yn ystod streic os nad oedd y swyddi hynny'n rhai gweinyddol neu'n waith llaw.

Cyfeiriodd un ymateb at y gwahaniaeth posib yn sefyllfa Cymru a Lloegr pe bai Llywodraeth y DU yn diddymu'r Rheoliad a nododd y gallai asiantaethau cyflogaeth Cymru ddarparu gweithwyr asiantaeth i gyflawni dyletswyddau mewn achosion o weithredu diwydiannol yn Lloegr.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno mai deddfwriaeth sylfaenol i greu dyletswydd ar gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaethau yw'r opsiwn gorau i gyflawni ein hamcan?

Cytuno	60%
Anghytuno	36%

	Unigolion	Undebau Llafur	Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
Cytuno	65%	77%	29%
Anghytuno	35%	15%	71%

Cytunai 60% o'r holl ymatebion mai'r opsiwn o ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol fyddai'n cyflawni amcan Llywodraeth Cymru orau.

Roedd defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i'w gwneud yn ddyletswydd ar gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaethau yn cael cefnogaeth gref gan ymatebwyr o undebau llafur (77%) ac unigolion (65%). Ond roedd yr ymatebion gan gyflogwyr y sector cyhoeddus yr un mor gryf yn erbyn y syniad o ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol (29% o blaid a 71% yn erbyn).

Roedd tri o ymatebwyr o blith cyflogwyr y sector cyhoeddus, oedd wedi ymgynghori â'i gilydd ynglŷn â'u hatebion, yn ystyried nad oes angen canllawiau na deddfwriaeth sylfaenol, gydag un yn awgrymu defnyddio'r Fframwaith Caffael Gweithwyr Asiantaethau.

Roedd un sefydliad oedd yn cynrychioli rhannau o'r sector cyhoeddus yn ystyried bod y trefniadau gwirfoddol presennol yn ddigonol heb greu deddfwriaeth, gan nodi bod gweithio mewn partneriaeth yn rhan allweddol o'r ffordd mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gweithredu.

Dangosodd TUC Cymru y bydden nhw'n fodlon i fanylion y ddyletswydd gael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth os yw'r egwyddor yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Câi'r opsiwn hwn ei gefnogi hefyd yn yr ymatebion eraill gan undebau llafur, er bod UNSAIN yn ystyried bod deddfwriaeth sylfaenol yn ofynnol i sicrhau bod dyletswydd gyfreithiol yn cael ei rhoi ar gyflogwyr.

Awgrymodd nifer o ymatebion gan unigolion, undebau a chyflogwyr sector cyhoeddus y byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol yn dangos mwy o gefnogaeth i'r hawl i gynnal streic na defnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd, neu y byddai'n fwy tryloyw.

Awgrymodd un ymatebwr o'r sector cyfreithiol mai defnyddio deddfwriaeth (sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) fyddai'n rhoi'r eglurder a'r sicrwydd mwyaf yn hytrach na dibynnu ar ganllawiau a all fod yn rhai dewisol, neu gallai fod ansicrwydd ynglŷn â sut i'w ddefnyddio.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno mai canllawiau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion i gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw'r opsiwn gorau i gyflawni'r amcan?

Cytuno	43%
Anghytuno	50%

	Unigolion	Undebau Llafur	Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
Cytuno	55%	31%	29%
Anghytuno	45%	62%	57%

Roedd llai na hanner yr holl ymatebwr (43%) yn cytuno mai'r opsiwn i ddefnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd gan Weinidogion yw'r ffordd orau o gyflawni amcan Llywodraeth Cymru.

Roedd hyn arbennig o wir yn achos ymatebion yr undebau llafur (31%) a chyflogwyr y sector cyhoeddus (29%). Roedd mwy o ymatebwyr unigol o blaid defnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd (55%).

Roedd tri o ymatebwyr oedd yn gyflogwyr sector cyhoeddus, ac oedd wedi ymgynghori gyda'i gilydd ynglŷn â'u hatebion, yn ystyried nad oedd angen deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth na chanllawiau, gydag un yn awgrymu defnyddio'r Fframwaith Caffael Gweithwyr Asiantaethau. Croesawyd y potensial o ddefnyddio'r Fframwaith yn un o ymatebion yr undebau llafur hefyd.

Roedd barn wrthgyferbyniol gan wahanol ymatebwyr. Ystyriai un ymatebwr oedd yn gyflogwr sector cyhoeddus fod y dull presennol o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth yn y sector cyhoeddus yn golygu bod canllawiau a chyfarwyddyd yn fwy priodol na deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, roedd ymatebion gan UNSAIN a rhai undebau llafur eraill yn awgrymu y gallai cyflogwyr ddewis anwybyddu canllawiau neu gyfarwyddyd. Roedd pryder hefyd y gallai'r opsiwn hwn gael ei gamddefnyddio neu ei herio gan Weinidogion neu gyflogwyr.

Roedd rhai ymatebion gan unigolion yn gwrthwynebu defnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd gan na fyddai'n ofynnol cael cefnogaeth Gweinidogion ac roedd pryderon na fydden nhw'n dewis gweithredu'r pwerau, neu y byddai llai o dryloywder i'r sefyllfa nag a fyddai drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol.

Awgrymodd un ymatebwr o'r sector cyfreithiol mai defnyddio deddfwriaeth (sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) fyddai'n rhoi'r eglurder a'r sicrwydd mwyaf, yn hytrach na dibynnu ar ganllawiau a allai fod yn ddewisol neu'n destun ansicrwydd ynghylch ei ddefnyddio.

Cwestiwn 6

A oes yna amgylchiadau y dylid eu heithrio o'r ddyletswydd ac, os felly, beth fyddai canlyniadau peidio â'u heithrio yn eich barn chi?

Roedd sawl ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn, nifer ohonynt yn awgrymu'r "perygl i'r gwasanaethau pwysicaf" presennol neu os "gellid profi bod risg i ddiogelwch y cyhoedd".

Awgrymodd un ymatebwr unigol, oedd yn gefnogol i'r syniad o gadw'r sefyllfa bresennol, y dylid darparu ar gyfer rhieni ar incwm isel sy'n gweithio sy'n wynebu anawsterau gofal plant pan fydd streic yn effeithio arnynt.

Roedd yr ymatebion gan unigolion yn cynnwys yr awgrymiadau na ddylai gwasanaethau argyfwng, ymarferwyr meddygol na'r fyddin gael yr hawl i fynd ar streic. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebwr na ddylai unrhyw gyflogai sector cyhoeddus allu mynd ar streic ac roedd un arall yn ystyried y dylid eithrio pob amgylchiad gan y gallai achosi niwed i'r cyhoedd.

Pe bai unrhyw eithriadau i'r ddyletswydd, awgrymodd un ymateb y dylai'r eithriadau a'r rhesymeg dros eu cynnig fod yn destun ymgynghoriad pellach.

Cwestiwn 7

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Ni roddodd neb o'r sector cyhoeddus unrhyw ymateb.

Nododd ymatebwyr y sector preifat eu bod yn ymwybodol o rai asiantaethau recriwtio addysgol sy'n cynnig pobl i weithio yn ystod gweithredu diwydiannol.

Roedd ymatebion yr undebau llafur yn cynnwys sylwadau cyffredinol am bwysigrwydd hawliau gweithwyr a chynrychiolaeth undebau llafur, yn ogystal â dweud pa mor effeithiol yw'r trefniadau partneriaeth gyhoeddus a'r berthynas dda rhwng cyflogwyr ac undebau llafur.

Gall yr ymateb gan Voice – undeb nad yw'n streicio – yn tynnu sylw at bryderon ynglŷn â diddymu'r Rheoliad presennol, neu fethu â rhoi deddfwriaeth gymesur yn ei lle, arwain at roi pwysau ar ei haelodau i gyflawni dyletswyddau cydweithwyr sydd ar streic.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ynghylch defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod streic yn cael eu hystyried a'u defnyddio fel sail i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru. Bydd datganiadau pellach yn cael eu gwneud ynglŷn â'n camau pellach.

Atodiad 1: Rhestr o Ymatebwyr

Rydym wedi gosod pob ymateb yn un o'r categorïau canlynol:

Unigol	Ymatebion lle nad oes sefydliad wedi ei restru neu a gafodd eu cyflwyno'n ddiennw.
Sector Cyhoeddus	Ymatebion gan gyrff y sector cyhoeddus neu gynrychiolwyr sefydliadau sy'n gweithio ar ran y sector cyhoeddus.
Sector Preifat	Ymatebion o'r sector preifat
Undeb Llafur	Ymatebion gan undebau.
Arall	Ymatebion eraill

Cyf	Categori	Ymatebwr	Sefydliad
1	Unigolyn	Stephen Marks	
2	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
3	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
4	Unigolyn	Keith Ingram	
5	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
6	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
7	Unigolyn	Stephen Phillips	
8	Unigolyn	Jill Rossiter	
9	Sector preifat	Gary Williams	New Directions Education Ltd
10	Sector cyhoeddus	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
11	Unigolyn	Gavin Burke	
12	Unigolyn	Pete Blakemore	
13	Unigolyn	Ymateb diennw	

14	Undeb	Alyn Thomas	GMB
15	Undeb	Owen Hathway	NUT Cymru
16	Unigolyn	Alan Hoskins	
17	Undeb	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
18	Unigolyn	Ymateb diennw	
19	Undeb	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
20	Unigolyn	Mike Perkins	
21	Unigolyn	Nigel Doyle	
22	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
23	Undeb	Tim Pratt	ASCL Cymru
24	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
25	Unigolyn	Dave Fildes	
26	Sector cyhoeddus	Phil Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
27	Undeb	Lisa Edwards	UCU Wales
28	Undeb	Ian Toone	Voice
29	Sector cyhoeddus	Andrew Davies	Cyflogwyr GIG Cymru
30	Sector cyhoeddus	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
31	Undeb	Martin Mansfield	TUC Cymru
32	Unigolyn	Gofynnodd yr ymatebwr i fod yn ddiennw	
33	Undeb		Ochr Undebau Llafur Llywodraeth Cymru
34	Unigolyn	Thomas Hugh Prosser	

35	Sector cyhoeddus	Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
36	Sector cyhoeddus	Philip Haynes	Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
37	Arall	Lindsey Woods	Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
38	Undeb	Lisa Turnbull	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
39	Undeb	Elaine Edwards	UCAC / NUT Wales
40	Sector cyhoeddus	Dr Rachel Bowen	Colegau Cymru
41	Undeb	Amber Courtney	UNSAIN Cymru
42	Undeb	Rex Phillips	NASUWT Cymru